CLWB ACHREDEDIG Chwaraeon RhCT
Sport RCT CLUB ACCREDITATION

# CRONFA CHWARAEON YN Y GYMUNED

**Mae'r gronfa yma ar gael ar gyfer unrhyw glwb chwaraeon cymunedol neu grŵp cymunedol Achrededig Chwaraeon RhCT yn Rhondda Cynon Taf sydd angen cymorth i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon presennol neu newydd.**

Mae'r gronfa yma ar gyfer costau cychwyn hanfodol a sylfaenol hyd at tua £300. Ar gyfer prosiectau mwy byddwn ni'n gweithio gyda chi i wneud cais am gyllid allanol megis Cronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru.

## Enghreifftiau o'r hyn y byddwn ni'n ei gefnogi

- Unigolyn sydd am ddechrau grŵp cymunedol newydd, i gyflwyno sesiwn megis 'Yn ôl i Bêl-rwyd' ar gyfer oedolion i fod yn actif.
- Grŵp chwaraeon cymunedol sy'n bodoli eisoes, megis 'Grŵp Pêl-droed neu Rygbi Cerdded', sydd angen cynyddu ei niferoedd i barhau â'u sesiynau wythnosol.
- Unigolyn sydd am sefydlu clwb chwaraeon newydd, i gynnig chwaraeon yn eu cymuned i blant a/neu oedolion.
- Clwb Chwaraeon presennol sydd angen cymorth i gynyddu eu niferoedd neu ddenu gwirfoddolwyr newydd.
- Clwb Chwaraeon presennol sydd am gynnig rhywbeth newydd/gwahanol megis sesiwn i blant dan 5 oed, sesiwn gynhwysol/anabledd neu brosiect i dargedu grŵp penodol yn y gymuned.

## Enghreifftiau o beth y mae modd i chi wneud cais amdano

- Deunyddiau Marchnata a Hyrwyddo
- Addysg Hyfforddwyr i Hyfforddi/Cefnogi Gwirfoddolwyr
- Llogi Cyfleusterau (ar gyfer sesiynau newydd yn unig)
- Offer hanfodol

## PWY SY'N CAEL CYFLWYNO CAIS?

### CLYBIAU CHWARAEON CYMUNEDOL

Unrhyw glwb chwaraeon cymunedol yn Rhondda Cynon Taf sy'n dymuno datblygu cyfleoedd presennol neu ddechrau cyfleoedd newydd. Rhaid i'r clwb fod yn gysylltiedig â'u Corff Llywodraethu Cenedlaethol **a rhaid iddyn nhw gwblhau Achrediad Clwb Chwaraeon Rhondda Cynon Taf cyn gwneud cais.**

### GRWPIAU CYMUNEDOL

Unrhyw grŵp cymunedol yn Rhondda Cynon Taf sy'n dymuno dechrau neu ddatblygu chwaraeon neu sesiynau gweithgareddau corfforol. **Rhaid i grwpiau cymunedol gofrestru cyn gwneud cais.**

## SUT Y MAE'N GWEITHIO?

1. Cysylltu â Chwaraeon Rhondda Cynon Taf i ddechrau'r broses.
2. Cwrdd â'n Carfan Chwaraeon Cymunedol i ysgrifennu a chyflwyno eich cais.
3. Yna, bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo neu ei wrthod. Os caiff ei wrthod, byddwn ni'n gweithio gyda chi ymhellach.
4. Byddwn ni'n prynu/archebu unrhyw un o'r eitemau rydych chi wedi gwneud cais amdanyn nhw.
5. Byddwch chi'n dechrau'r prosiect ac yn cadw mewn cysylltiad am ragor o gymorth.
6. Byddwch chi'n cyflwyno gwybodaeth monitro i ddangos effaith/deilliannau.

# Sut y mae modd i ni eich helpu chi?

- I wneud cais neu i ofyn am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk**
- Os ydych chi'n unigolyn sy'n edrych am gymorth i sefydlu clwb chwaraeon newydd neu grŵp cymunedol, cysylltwch â ni i ddechrau.

@sportrct
**www.chwaraeonrhct.co.uk**
Chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk

hamddenamoes leisureforlife

RHONDDA CYNON TAF

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh